
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Aer Glân i Gymru

## Awyr Iach, Cymru Iach

Adroddiad Diweddaru am y Gwaith
a Wnaed ar y Camau Gweithredu



Medi 2024

## Pobl
Diogelu iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Monitro ac Asesu Ansawdd Aer yng Nghymru** | | | | | |
| Byddwn yn gwella ein galluoedd monitro ac asesu i gefnogi camau wedi'u targedu mewn perthynas â llygredd aer. Ein bwriad yw rhoi gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer monitro ac asesu llygredd aer ar waith erbyn mis Rhagfyr 2022. Bydd y gwasanaeth yn ategu'r gwaith blynyddol o adrodd ar gyflwr ansawdd aer yng Nghymru. Yn ogystal, bydd yn cyflwyno argymhellion ynghylch yr ymyriadau sy'n ofynnol i leihau llygredd aer a'r niwed a achosir ganddo i iechyd pobl a'r amgylchedd. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid eraill i lunio fframwaith ar gyfer monitro, modelu, asesu a gwerthuso ansawdd aer erbyn Hydref 2021. | ● | ● | | AR Y TRYWYDD | O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 mae gofyn i Weinidogion Cymru fonitro'r hyn sy'n cael ei wneud i gyrraedd unrhyw dargedau newydd sy'n cael eu creu. Ystyrir y trefniadau ar gyfer casglu data o'r fath pan benderfynir ar y targed a byddent yn gofyn am ddarparu trefniadau monitro a/neu modelu ansawdd yr aer. O ran $PM_{2.5}$, byddwn yn ystyried trefniadau monitro yn haf 2025. Bydd y gofynion i fonitro llygreddau eraill yn y dyfodol yn dibynnu ar y targedau ansawdd aer penodol gaiff eu datblygu, ar eu fforddiadwyedd ac ar farn Gweinidogion. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Targedau newydd i leihau cysylltiad â llygredd aer** | | | | | |
| Rydym yn gweithio'n agos â'r Panel Cynghori ar Aer Glân i gael cyngor annibynnol ac arbenigol ynghylch datblygu targedau ansawdd aer effeithiol a seiliedig ar dystiolaeth er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. | ● | ● | | AR Y TRYWYDD | Mae'r Panel Cynghori ar Aer Glân yn parhau i roi cyngor annibynnol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i helpu Llywodraeth Cymru i lunio polisïau a deddfwriaeth ar gyfer y dyfodol fel rhan o'n Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol<br><br>Mae'r panel wrthi'n tyfu'n banel annibynnol a ffurfiol sy'n talu ei aelodau. Penodwyd yr Athro Paul Lewis yn Gadeirydd y Panel ar 15 Mawrth 2024. Cytunir ar aelodau'r Panel erbyn Medi 2024. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn datblygu ac yn deddfu targed newydd ar gyfer deunydd gronynnol mân, gan ystyried canllawiau WHO ynghylch ansawdd aer. Bydd hyn yn sbarduno gostyngiadau yng nghysylltiad y cyhoedd â llygredd aer fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Deddf Aer Glân i Gymru a'i rheoliadau. | ● | ● | | AR Y TRYWYDD | Derbyniodd Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 y Cydsyniad Brenhinol ym mis Chwefror 2024 gan greu fframwaith ar gyfer pennu targedau ansawdd aer a rhoi dyletswydd ar Weinidogion i bennu targed ar gyfer $PM_{2.5}$ erbyn Chwefror 2027.<br><br>Ein bwriad yw defnyddio tystiolaeth i ddatblygu cynigion ar gyfer targedau erbyn gwanwyn 2025 i Ysgrifenyddion perthnasol y Cabinet allu eu hystyried. Daw'r targedau o dan nifer o bortffolios. Wedyn, byddwn yn llunio ac yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn hydref 2025 ar yr opsiynau hyn. Cyhoeddir yr ymatebion i'r ymgynghoriad yng ngwanwyn 2026, gyda golwg ar gyflwyno rheoliadau ger bron y Senedd yn hydref 2026.<br><br>Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau hefyd i Weinidogion greu targedau tymor hir mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli ansawdd aer yn ystod digwyddiad llygredd** | | | | | |
| Gan weithio gyda CNC, yn ystod 2020-21, byddwn yn diweddaru'r offer monitro ansawdd aer a ddefnyddir yn ystod digwyddiadau ac yn adeiladu ar y gwasanaethau presennol a ddarperir gan y Gell Ansawdd Aer er mwyn sicrhau bod trefniadau ar waith i ymateb i ddigwyddiadau ansawdd aer 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn, unrhyw le yng Nghymru. | ● | ● | | WEDI'I GWBLHAU | Cafodd gwasanaeth monitro digwyddiadau ansawdd aer Cymru ei sefydlu ym mis Chwefror 2023. Mae 2 dîm wrth law i ymateb i ddigwyddiadau ansawdd aer, unrhyw le yng Nghymru.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi dros £1 miliwn yn y gwasanaeth hwn dros 3 blynedd. Mae'r arian hwn wedi prynu offer monitro newydd a llunio trefniadau argyfwng pe bai digwyddiad difrifol yn effeithio ar ansawdd aer yng Nghymru. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM)** | | | | | |
| Byddwn yn cyflwyno newidiadau polisi LAQM erbyn 2023 er mwyn sicrhau bod y drefn yn canolbwyntio ar iechyd y cyhoedd ac yn mynd ati'n rhagweithiol i ganfod a mynd i'r afael ag ardaloedd o lygredd. | ● | ● | | AR Y TRYWYDD | Cyflwynwyd Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 ym mis Mawrth 2023 a derbyniodd y Cydsyniad Brenhinol ym mis Chwefror 2024. Mae'n newid y drefn LAQM lle mae gofyn i awdurdodau lleol adolygu ansawdd aer bob blwyddyn a phennu dyddiadau cydymffurfio os oes ardal rheoli ansawdd aer wedi'i chreu. Y gobaith yw, trwy eu cyflwyno fel mesurau statudol, bydd awdurdodau'n gallu mynd i'r afael mewn ffordd broactif ag ardaloedd o lygredd a sicrhau eu bod yn atebol am gymryd camau proactif i wella ansawdd aer yn eu hardaloedd. Rydym wrthi'n datblygu canllaw i gefnogi'r newidiadau deddfwriaethol a ddaw i rym yn 2025.<br><br>Cafodd y Gronfa Gymorth Rheoli Ansawdd Aer Lleol ei lansio yn 2021 i gefnogi awdurdodau i gymryd camau proactif ynghylch ansawdd aer yn eu hardaloedd, ac i'w hannog i fod yn arloesol. Lansiwyd rownd 2024-2025 ym mis Mai 2025 ac mae dyraniadau wedi'u gwneud i bump awdurdod lleol. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn ymgynghori ynghylch bwriad deddfwriaethol LAQM mewn Papur Gwyn erbyn diwedd tymor presennol y Senedd. | ● | | | WEDI'I GWBLHAU | Gwnaethom gyhoeddi Papur Gwyn ar Fil Aer Glân (Cymru) yn 2021. Rydym wrthi'n rhoi Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 ar waith a dderbyniodd y Cydsyniad Brenhinol ym mis Chwefror 2024. Mae adran ynddi am Reoli Ansawdd Aer Lleol. Rydym wrthi'n datblygu canllaw i gefnogi'r newidiadau deddfwriaethol a ddaw i rym yn 2025. |
| **Dynodi Parthau Aer Glân/ Parthau Allyriadau Isel** | | | | | |
| Byddwn yn cyhoeddi ein Fframwaith Parthau Aer Glân yng ngwanwyn 2021, gan ystyried casgliadau ein hadolygiad o godi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd yr adroddir arno erbyn Hydref 2020. | | ● | | WEDI'I OHIRIO | Rydym wedi gohirio gweithredu ar y cam hwn er mwyn gallu cyd-ddatblygu polisi ehangach ar godi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd gyda'r adran Drafnidiaeth. Ceir ymrwymiad yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru, Llwybr Newydd, i ddatblygu strategaeth neu fframwaith ar godi tâl teg ar ddefnyddwyr ffyrdd fel rhan o becyn eang o fesurau i wella opsiynau teithio. Yn ôl Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol, yr amserlen ar gyfer hyn yw 2022-2026. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ardaloedd Rheoli Mwg** | | | | | |
| Byddwn yn diwygio'r rheoliadau presennol yn ymwneud â Rheoli Mwg, trwy Ddeddf Aer Glân i Gymru yn nhymor nesaf y Senedd. Bydd hyn yn sicrhau bod gan Awdurdodau Lleol yr adnoddau angenrheidiol i gymryd camau gorfodi effeithiol yn erbyn troseddwyr. | ● | ● | | AR Y TRYWYDD | Derbyniodd Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 y Cydsyniad Brenhinol ym mis Chwefror 2024. Mae'r Ddeddf yn newid y drefn rheoli mwg.<br><br>Mae'r Ddeddf yn newid y drefn rheoli mwg. Rydym wrthi'n datblygu canllaw i gefnogi'r newidiadau deddfwriaethol a ddaw i rym yn 2025. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| Yn 2021, byddwn yn ymchwilio i gyfraniad tân gwyllt a choelcerthi domestig at lefelau allyriadau $PM_{2.5}$. Byddwn yn gweithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU i ddatblygu camau rheoleiddiol a/neu anrheoleiddiol pellach, pan fo'u hangen, gan ddefnyddio dull sy'n sensitif i arwyddocâd diwylliannol yr arferion hyn. | | ● | | AR Y TRYWYDD | Cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg yn 2021 o'r allyriadau o goelcerthi a thân gwyllt domestig.<br>Mae allyriadau o goelcerthi wrthi'n cael eu hystyried wrth i ni ddatblygu'n polisi ehangach ar daclo allyriadau llosgi domestig.<br>Mae crynodiadau o sylweddau niweidiol a thonfeddi sain yn yr awyr yn elfennau o'n hamgylchedd aer lleol, dan do ac yn yr awyr agored. Mae cysylltiad yn aml rhwng ansawdd aer lleol a phroblemau sŵn a ffyrdd o'u lleihau. Bu Gweinidogion a swyddogion Cymru'n cydweithio â Llywodraeth y DU i wasgu am reoliadau tynnach yng Nghymru a Lloegr ar ddefnyddio tân gwyllt a'u gwerthu i'r cyhoedd. Mae Gweinidogion Cymru'n awyddus i weithio'n adeiladol ag unrhyw Lywodraeth y DU sy'n barod i wella'r gyfraith gwerthu a defnyddio tân gwyllt yng Nghymru a Lloegr.<br>Fe gewch ragor o wybodaeth am bolisi tân gwyllt Llywodraeth Cymru yng Nghynllun Gweithredu ar Sŵn a Seinwedd 2023-2028. Wrth ystyried y defnydd o dân gwyllt yng Nghymru, bydd y polisi'n rhoi sylw i'w heffaith ar allyriadau $PM_{2.5}$, ansawdd aer lleol a'n bwriad i sicrhau yn y dyfodol eu bod yn dawelach ac yn cael eu defnyddio ar adegau llai dirybudd, gan leihau'r gofid a achosir gan dân gwyllt swnllyd i bobl fregus ac anifeiliaid. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyn bo hir byddwn yn ymgynghori ynghylch llosgi domestig, a bydd hyn yn cynnwys ystyried a ddylai offer llosgi tanwydd solet awyr agored a'r tanwyddau maent yn eu defnyddio fod yn destun rheoleiddio. Byddwn yn datblygu'r rheoliadau angenrheidiol yn ystod 2021. | ● | ● | | WEDI'I GWBLHAU | Cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad ar losgi tanwydd solet at ddiben domestig, a gynhaliwyd rhwng 13 Ionawr 2021 ac 16 Mehefin 2021, eu cyhoeddi ym mis Hydref 2023. Rydym wedi ymrwymo i leihau'r mathau mwyaf llygrol o danwydd solet domestig. |
| **Hylosgi Domestig** | | | | | |
| Byddwn yn gwahardd gwerthu pren gwlyb a glo traddodiadol/rhwym, yn amodol ar gynnal ymgynghoriad. Ein nod yw cyflwyno'r ddeddfwriaeth angenrheidiol yn ystod 2021, gyda'r gwaharddiadau'n dechrau yn ystod 2023. | ● | ● | | WEDI'I OHIRIO | Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau'r mathau mwyaf llygrol o danwydd solet domestig a disgwylir i'r rheoliadau hyn ddod i rym erbyn Hydref 2025. |
| Byddwn yn rheoleiddio er mwyn sicrhau mai'r mathau mwyaf effeithlon o offer yn unig fydd ar gael i'w prynu a'u gosod erbyn 2022. Bydd y rheoliad yn cynnwys gosod offer ail law. | ● | ● | | WEDI'I OHIRIO | Cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad ar losgi tanwydd solet at ddiben domestig, a gynhaliwyd rhwng 13 Ionawr 2021 ac 16 Mehefin 2021, eu cyhoeddi ym mis Hydref 2023. Mae Llywodraeth Cymru am gyhoeddi maes o law restr ar-lein o danwyddau a ganiateir a dyfeisiau cymeradwy. Rhaid i bob stôf newydd a werthir ar ôl Mai 2022 fodloni safon EcoDesign |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn rheoleiddio er mwyn ei gwneud hi'n ofynnol i offer llosgi domestig gael ei gynnal a chadw'n flynyddol gan weithiwr proffesiynol ardystiedig, yn amodol ar adolygiad. Cynhelir yr adolygiad hwn erbyn 2023. | | ● | | NEWID POLISI | Cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad ar losgi tanwydd solet at ddiben domestig, a gynhaliwyd rhwng 13 Ionawr 2021 ac 16 Mehefin 2021, eu cyhoeddi ym mis Hydref 2023. Nid oedd yr ymatebion o blaid y gofyn i weithiwr proffesiynol ardystiedig wneud gwaith cynnal a chadw ar offer llosgi domestig bob blwyddyn. Felly ni fydd Llywodraeth Cymru'n mynd â'r cynnig hwn ymhellach. |
| Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant a llywodraethau eraill i bennu safonau profi ar gyfer tanwyddau solet newydd a gynhyrchir ac a ddaw ar y farchnad erbyn 2024 er mwyn sicrhau y byddant yn cydymffurfio â rheoliadau priodol yn ymwneud ag allyriadau sylffwr a mwg. | | ● | | WEDI'I OHIRIO | Cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad ar losgi tanwydd solet at ddiben domestig, a gynhaliwyd rhwng 13 Ionawr 2021 ac 16 Mehefin 2021, eu cyhoeddi ym mis Hydref 2023. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau'r mathau mwyaf llygrol o danwydd solet domestig a disgwylir i'r rheoliadau hyn ddod i rym erbyn hydref 2025. |
| **Gwella effeithlonrwydd ynni domestig** | | | | | |
| Byddwn yn ymchwilio i opsiynau i gefnogi aelwydydd er mwyn sicrhau na fydd neb yn llithro i dlodi tanwydd neu'n aros mewn tlodi tanwydd o ganlyniad i wahardd tanwyddau neu offer, neu o ganlyniad i ymestyn y defnydd o Ardaloedd Rheoli Mwg. Ein nod yw cael cynllun ar waith erbyn 2022, cyn i unrhyw gyfnod pontio ar gyfer defnyddio tanwyddau solet gwaharddedig ddod i ben. | | ● | | WEDI'I OHIRIO | Cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad ar losgi tanwydd solet at ddiben domestig, a gynhaliwyd rhwng 13 Ionawr 2021 ac 16 Mehefin 2021, eu cyhoeddi ym mis Hydref 2023. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau'r mathau mwyaf llygrol o danwydd solet domestig a disgwylir i'r rheoliadau hyn ddod i rym erbyn hydref 2025. Caiff asesiad o effeithiau'r rheoliadau ei gynnal i ddeall eu heffaith ar ddefnyddwyr a chyflenwyr. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llygredd aer dan do** | | | | | |
| Byddwn yn parhau i weithio gyda'r byd academaidd, sefydliadau iechyd y cyhoedd a phartneriaid eraill i ddatblygu ac ymateb i dystiolaeth newydd ynghylch llygredd aer dan do, wrth iddi ddod i'r amlwg. | ● | ● | ● | AR Y TRYWYDD | Rydym wedi dechrau ystyried argymhellion diweddar y Grŵp Arbenigwyr ar Ansawdd Aer ar ansawdd aer dan do. Rydym wedi comisiynu adolygiad ar y cysylltiad rhwng stofau llosgi coed a llygredd aer dan do. |
| Byddwn yn codi ymwybyddiaeth pobl o lygredd aer dan do trwy ymyriadau cyfathrebu, yn cynnwys ffyrdd o leihau risgiau dod i gysylltiad â llygredd o'r fath. | ● | ● | ● | AR Y TRYWYDD | Yn unol â'r ffordd integreiddiol o weithio a argymhellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym wedi nodi'r berthynas rhwng gwahanol agweddau ar sut mae ansawdd yr amgylchedd dan do yn effeithio ar iechyd pobl. Dywed Cynllun Sŵn a Seinwedd Cymru 2023-2028 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023: Rhaid cydnabod y rhyngweithio cymhleth rhwng risgiau i iechyd yr amgylchedd dan do, gan gynnwys sŵn, tymereddau eithafol, lleithder gormodol a llygryddion aer dan do, a rhaid i bawb chwilio am atebion, o benseiri a swyddogion cynllunio i'r preswylwyr eu hunain, eu cyflogwyr, ac unrhyw un arall sydd â dyletswydd gofal tuag atynt.<br><br>Rydym wedi dechrau gweithio ar draws adrannau a chyrff cyhoeddus i ddatblygu'r syniadau hyn ymhellach, er mwyn cynyddu'r manteision a lleihau'r gwrthdaro rhwng ein polisïau a'n negeseuon ar ansawdd yr amgylchedd dan do. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Deddf Aer Glân i Gymru** | | | | | |
| Byddwn yn cyhoeddi ac yn ymgynghori ynghylch Papur Gwyn ar Ddeddf Aer Glân i Gymru cyn diwedd tymor presennol y Senedd. | ● | | | WEDI'I GWBLHAU | Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Fil Aer Glân (Cymru) rhwng Ionawr ac Ebrill 2021. Gwnaeth yr ymatebion ddylanwadu ar Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 a dderbyniodd y Cydsyniad Brenhinol ym mis Chwefror 2024. |
| **Cyfathrebu a newid ymddygiad** | | | | | |
| Byddwn yn gwella gwefan bresennol Ansawdd Aer Cymru er mwyn datblygu hyb cyfathrebu a gwybodaeth. Bydd y gwaith ailwampio cychwynnol yn cael ei gwblhau erbyn diwedd 2021 a byddwn yn ychwanegu ac yn datblygu nodweddion newydd yn ystod y pum mlynedd nesaf. | ● | ● | | AR Y TRYWYDD | Mae gwaith yn cael ei wneud ym mlwyddyn ariannol 2024-25 i ddiweddaru gwefan Ansawdd Aer yng Nghymru.<br>Bydd hynny'n cynnwys ei gwneud yn haws gweld data monitro lleol a gwybodaeth gyfredol am effeithiau llygredd aer a sut i leihau crynodiadau a lleihau'r cysylltiad â nhw. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| Yn ystod y pum mlynedd nesaf, byddwn yn darparu negeseuon cyfathrebu ac ymgyrchoedd cenedlaethol yn ymwneud ag ansawdd aer, fel y Diwrnod Aer Glân. | ● | ● | | AR Y TRYWYDD | Rydym yn rhoi arian i'r Global Action Plan i gefnogi Noson Aer Glân 2024 a Diwrnod Aer Glân 2024. Gyda'r arian, mae tudalen Diwrnod Aer Glân Cymru ddwyieithog a deunydd addysg i ysgolion a'r cyhoedd wedi'u datblygu. Byddant ar gael drwy'r flwyddyn.<br>Rydyn ni'n dal i dalu a chwilio am gyfleoedd i wella gwybodaeth am ansawdd aer trwy ein gwefan Ansawdd Aer yng Nghymru a thrwy'r Gronfa Gymorth Rheoli Ansawdd Aer Lleol.<br>Rydym wrthi'n datblygu cynllun ar gyfer codi ymwybyddiaeth am lygredd aer, i'w gyhoeddi erbyn gwanwyn 2025. Bydd yn esbonio sut y byddwn yn codi ymwybyddiaeth am lygredd aer a sut i gellid lleihau llygredd aer dros y pedair blynedd nesaf. |
| Yn ystod y pum mlynedd nesaf, byddwn yn gweithio gyda sefydliadau lleol i gefnogi'r gwaith o ddarparu mentrau ansawdd aer lleol. | ● | ● | | AR Y TRYWYDD | Rydyn ni'n helpu mentrau lleol trwy'n Cronfa Gymorth Rheoli Ansawdd Aer Lleol ac mae Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 yn cynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i godi ymwybyddiaeth am effeithiau llygredd aer a mesurau i'w lliniaru. Caiff cynllun ar gyfer codi ymwybyddiaeth am lygredd aer ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2025. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg a'r Cwricwlwm newydd i Gymru** | | | | | |
| Rydym yn gweithio gyda phartneriaid addysg i hyrwyddo a datblygu adnoddau addysgol i ategu'r cwricwlwm newydd cyn ei gyflwyno o 2022 ymlaen. Mae hyn yn cynnwys datblygu cyfleoedd sy'n arwain at well dealltwriaeth o ansawdd aer, llygryddion, tystiolaeth a dehongli, a datblygu ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb personol. | ● | ● | | AR Y TRYWYDD | Rydym yn parhau i weithio gyda chyrff amgylcheddol a ffermio ar draws Cymru i sicrhau bod adnoddau o ansawdd da ar gael i ysgolion ar daclo'r newid yn yr hinsawdd – yn ymdrin â phynciau fel ansawdd aer ac allyriadau.<br><br>Bydd ein cynllun ar gyfer codi ymwybyddiaeth am lygredd aer yn debygol o gynnwys gweithredoedd i godi ymwybyddiaeth mewn ysgolion. Y bwriad yw ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2025. |
| **Grymuso gweithluoedd i wella ansawdd aer** | | | | | |
| Erbyn 2022 byddwn yn llunio canllawiau statudol newydd ar gyfer y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol er mwyn grymuso gweithluoedd i fynd i'r afael â llygredd aer, yn amodol ar gynnal ymgynghoriad. | ● | ● | | NEWID POLISI | Yn dilyn yr adborth i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, mae Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 yn cynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i godi ymwybyddiaeth am effeithiau llygredd aer a mesurau i'w lliniaru. Mae hon yn ddarpariaeth fras all gynnwys cymryd camau sy'n berthnasol i weithluoedd.<br><br>Rydym wrthi'n datblygu cynllun ar gyfer codi ymwybyddiaeth am lygredd aer a byddwn yn ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2025. |

# Yr Amgylchedd

Cymryd camau i gefnogi ein hamgylchedd naturiol, ein hecosystemau a'n bioamrywiaeth

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerthuso tystiolaeth i gefnogi polisi** | | | | | |
| Mae cyfres o ddangosyddion yn cael eu datblygu i fonitro cyflwr bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y Dangosyddion Cenedlaethol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a dangosydd ar gyfer ansawdd aer. Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r dangosyddion hyn fod ar waith erbyn diwedd 2021. | ● | ● | | WEDI'I OHIRIO | Mae dangosyddion a cherrig milltir lefel uchel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu lle. Rydym wedi gohirio datblygu'r gyfres o ddangosyddion lefel is ar fioamrywiaeth i gyd-fynd â datblygu targedau ar gyfer bioamrywiaeth sy'n rhwymo'n gyfreithiol ac ar gyfer adfywio ein Cynllun Gweithredu ar Adfer Natur fel rhan o'n hymateb i dargedau'r Fframwaith Bydeang ar Fioamrywiaeth y cytunwyd arnynt yn COP16. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella bioamrywiaeth ac iechyd ecosystemau er mwyn gwella'r gallu i wrthsefyll llygredd aer ac effeithiau newid yn yr hinsawdd** | | | | | |
| Byddwn yn datblygu camau gweithredu i leihau effaith llygredd aer yng nghyd-destun cynigion ehangach sy'n cael eu nodi yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur. | ● | ● | ● | AR Y TRYWYDD | Rydym yn llunio map Rhwydweithiau Natur sy'n nodi'r rhwydweithiau ecolegol pwysicaf ar gyfer clustogi safleoedd gwarchodedig a'u cysylltu â'i gilydd. Bydd hynny'n gwella eu cyflwr a'u gallu i wrthsefyll. Mae datganiadau ardal yn creu'r dystiolaeth ar gyfer gweithredu ar sail lle i gryfhau ecosystemau a gwella'r gwasanaethau ecosystem y mae'r amgylchedd naturiol yn eu rhoi i ni. |
| **Cefnogi Cymru Wyrddach** | | | | | |
| Drwy ein Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, byddwn yn cynorthwyo cymunedau i greu mannau gwyrdd bach, gan ganolbwyntio'n benodol ar ardaloedd trefol ac ardaloedd o gwmpas trefi. | ● | ● | | AR Y TRYWYDD | Dyma bumed flwyddyn y Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ac mae'n bodloni'r holl fesurau yn yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i greu Mannau Gwyrdd. Rydym wedi helpu i greu neu wella rhagor na 2000 o fannau gwyrdd. Ymddengys mai blwyddyn ola'r rhaglen fydd y flwyddyn fwyaf eto o ran cyflawni. Rydym wrthi'n edrych ar ddyfodol y rhaglen ar ôl 2025. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Plannu coed a gwrychoedd mewn ffordd ddeallus i gefnogi gwelliannau mewn ansawdd aer** | | | | | |
| Byddwn yn cynyddu maint y coetir o leiaf 2,000 hectar y flwyddyn, gan godi i 4,000 hectar. Bydd hyn yn arwain at ystod o fanteision ecosystem, gan gynnwys cipio llygryddion aer. | ● | ● | ● | AR Y TRYWYDD | Yn 2022-23, gwnaethon ni blannu 1,190 ha o goetir newydd, ddwywaith yn fwy na'r flwyddyn cynt a'r arwynebedd mwyaf ers rhyw 40 mlynedd. Rydyn ni wedi datblygu'r cynlluniau creu coetir newydd a lansiwyd yn 2022 i wneud creu coetir yn ddewis mwy deniadol i reolwyr a pherchenogion tir yng Nghymru, gan gynnwys trwy godi'n sylweddol y taliadau am blannu coed, ffensio a gofalu am y coed, hynny ar ôl cyfnod o sawl blwyddyn heb gynnydd. |
| Byddwn yn cyflwyno Coedwig Genedlaethol i Gymru sy'n cynnwys ardaloedd newydd o goetiroedd cymunedol mewn ardaloedd trefol a gwledig. Bydd y rhain yn helpu i leihau pa mor agored yw pobl i lygredd aer. | ● | ● | ● | AR Y TRYWYDD | Mae'r Goedwig Genedlaethol wedi dechrau datblygu. Mae iddi dros 100 o safleoedd ar hyn o bryd, yn helpu i gynnal, cefnogi ac adfer coetiroedd ledled Cymru gan gynnwys rhai hynafol. Ymhen amser, bydd y Goedwig Genedlaethol yn ffurfio cadwyn o goetiroedd cysylltiedig ledled y wlad, gan barhau i greu manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn annog Awdurdodau Lleol a chynllunwyr trefol i ddefnyddio offer arbenigol ac arferion gorau er mwyn gwella'r broses o gynllunio i blannu coed trefol a rhywogaethau planhigion sy'n helpu i leihau pa mor agored yw pobl i lygredd aer. | ● | ● | | WEDI'I OHIRIO | Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi diweddaru eu gwe-dudalennau i gynnwys asesiadau o goed trefol, mannau gwyrdd a seilwaith gwyrdd. Cynhwysir dolenni i ganllawiau ac arfer da i ddarparu amrywiaeth o fanteision gan gynnwys ansawdd aer gwell. Roedd y dolenni hyn ar wefan CNC wedi'u cynnwys fel troednodion yn y diweddariad o rifyn 12 o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) a anfonwyd at Bennaeth Cynllunio pob awdurdod lleol yn Hydref 2023 a'u hymgorffori wedi hynny yn y PCC 12 llawn a gyhoeddwyd yn Chwefror 2024. Mae gwaith yn cael ei wneud i roi mwy o gyhoeddusrwydd i'r canllaw. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amaethyddiaeth a Defnydd Tir** | | | | | |
| **Gwybodaeth a chyngor** | | | | | |
| Byddwn yn sicrhau bod Cyswllt Ffermio yn parhau i ddarparu cyngor a chymorth er mwyn sicrhau bod arferion gorau yn cael eu mabwysiadu i leihau allyriadau amonia. Bydd hyn yn cynnwys cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar gynlluniau cymorth presennol ac yn y dyfodol, fel y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy a'r Grant Busnes i Ffermydd, sy'n helpu ffermwyr i fuddsoddi mewn seilwaith a thechnolegau i sicrhau'r gostyngiadau hyn. | ● | ● | ● | WEDI'I GWBLHAU | Dechreuwyd rhaglen newydd gwerth £22.9m gan Cyswllt Ffermio ar 1 Ebrill ac mae ar gael i ffermwyr yng Nghymru tan 31 Mawrth 2025. Ei themâu yw cynaliadwyedd a gwella perfformiad amgylcheddol. Ym mlwyddyn 1 y Rhaglen, cwblhawyd 94 o fodiwlau e-ddysgu oedd â chysylltiad â'r cynllun gweithredu ar aer glân, ynghyd â 25 o gyrsiau hyfforddi achrededig; 15 o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth strategol gyda 173 o fusnesau; a 653 o sesiynau cynghori 1-i-1 gyda chymhorthdal. Ym mlynyddoedd ariannol 2022-23 a 2023-24, cafwyd tri chyfnod ymgeisio am y cynllun Grantiau Bach – Effeithiolrwydd, gyda chyllideb o £5m ar gyfer pob cyfnod. Cafwyd cyfnod ymgeisio hefyd ar gyfer y cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau, gyda chyllideb o £15m. Mae contractau ar gyfer y cynllun yn mynd rhagddynt, a daw'r buddsoddiadau i ben erbyn Mawrth 2025.<br><br>Mae'r Cod Arferion Amaethyddol Da ar leihau'r amonia a ollyngir gan amaeth yn cael ei ddiweddaru a chaiff fersiwn newydd ei gyhoeddi cyn diwedd Medi 2024. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynllun ffermio cynaliadwy** | | | | | |
| Ym mis Rhagfyr 2020, byddwn yn ymgynghori ymhellach ar gynigion ar gyfer fframwaith rheoleiddio a chynllun cymorth ariannol diwygiedig i helpu i gyflawni canlyniadau SLM trwy'r Papur Gwyn ar Amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae canlyniadau SLM yn cynnwys ansawdd aer, a fydd yn cael ei gefnogi trwy gamau gweithredu ar y tir i wella pridd a hwsmonaeth anifeiliaid, rheoli cynefinoedd a maethynnau a phlannu coed. | ● | ● | | WEDI'I GWBLHAU | Pasiwyd Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) yn 2023. Creodd fframwaith o amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) y bydd y cymorth a roddir i ffermwyr, gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS), yn seiliedig arno. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cymorth (ariannol ac arall) mewn perthynas â 15 diben, gan gynnwys 'Gwella Ansawdd Aer'. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar yr SFS a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024. Ni fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad terfynol ar y cynllun tan ar ôl gwneud mwy o waith gyda rhanddeiliaid. Bydd yr SFS yn dechrau bellach yn 2026. |
| **Rheoleiddio** | | | | | |
| Rydym yn bwriadu ymgynghori ar Nodyn Cyngor Technegol newydd erbyn diwedd 2020. Bydd hyn yn sicrhau bod cynllunwyr yn gwybod sut i ddod o hyd i'r cyngor cywir i helpu i baratoi polisïau CDLl a gwneud penderfyniadau cadarn ar geisiadau cynllunio. | ● | | | WEDI'I OHIRIO | Mae gwaith ar baratoi'r TAN wedi'i ohirio tan fod y gwaith wedi'i wneud ar y canllaw cynllunio i ymateb i'r ffosfforws mewn afonydd mewn ardaloedd cadwraeth arbennig. Disgwylir ymgynghori ar hyn bellach yn gynnar yn 2025. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn cyflwyno rheoliadau i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol, a fydd yn cyfrannu at fodloni targedau ansawdd aer, gan gynnwys cyfraniad Cymru at ostyngiad 16% mewn allyriadau amonia'r DU erbyn 2030. | ● | ● | ● | WEDI'I GWBLHAU | Daeth Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) i rym ar 1 Ebrill 2021. Bydd cyfnod pontio ar gyfer rhai mesurau rhwng 1 Ionawr 2023 ac 1 Awst 2024.<br>Mae'r adolygiad bob pedair blynedd o'r Rheoliadau wedi dechrau a daw i ben cyn Ebrill 2025. Bydd yr adolygiad yn ystyried effeithiolrwydd y Rheoliadau i atal neu leihau llygredd amaethyddol, sy'n cynnwys llygredd aer. |
| Byddwn yn cydweithio â gweinyddiaethau eraill y DU i gynnal ymgynghoriad ar leihau allyriadau o wrteithiau sydd wedi'u cynhyrchu cyn diwedd 2020 er mwyn sicrhau cyfraniad Cymru at ostyngiad o 16% yn allyriadau amonia'r DU erbyn 2030. | ● | ● | ● | WEDI'I OHIRIO | Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn monitro datblygiadau yn y cynlluniau i leihau allyriadau amonia o wrtaith artiffisial ledled y DU ac mae'n ystyried beth i'w wneud nesaf o ran effeithiau digwyddiadau rhyngwladol ar gyflenwad a chost gwrtaith.<br>Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda rhanddeiliaid ar allyriadau amonia amaethyddol trwy Is-grŵp Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru.<br>Caiff y gwaith ei ystyried fel rhan o'r adolygiad bob pedair blynedd o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llygredd Aer Diwydiannol** | | | | | |
| Byddwn yn adolygu canllawiau'r broses ar gyfer Gweithfeydd Llosgi Gwastraff Bach (SWIPs) ac amlosgfeydd. Bydd hyn yn diweddaru'r broses ac yn helpu i reoli allyriadau ar y safleoedd hyn yn fwy effeithiol. | | ● | | AR Y TRYWYDD | Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus ei gynnal ar y Canllaw drafft ar Amlosgfeydd (PGN 5/12) rhwng Hydref a Rhagfyr 2023. Rydym wrthi'n paratoi crynodeb o'r ymatebion a'r bwriad yw cyhoeddi'r canllaw terfynol yn union wedi hynny. |
| Byddwn yn ystyried y dystiolaeth ar allyriadau o weithfeydd hylosgi bach, gan gynnwys gweithfeydd hylosgi biomas masnachol bach. Mae hyn yn cynnwys gweithfeydd hylosgi o fewn ystod mewnbwn thermol 500kW – 1MW, lle mae tystiolaeth gychwynnol yn awgrymu bod yna fwlch rheoleiddio. Byddwn yn cyflwyno rheolaethau rheoleiddio newydd os yw'r dystiolaeth yn cefnogi hynny. | | ● | | AR Y TRYWYDD | Rydym yn bwriadu ymgynghori yn haf 2024  ar nifer o newidiadau a gynigir i'r Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol sy'n ymwneud â llosgi. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn ystyried y dystiolaeth o allyriadau o Eneraduron Penodedig a ddefnyddir ar gyfer gwaith ymchwil, datblygu a phrofi, gan gyflwyno mesurau i'w heithrio o ddarpariaethau'r gyfundrefn trwyddedu amgylcheddol os yw'r dystiolaeth yn cefnogi hyn. Byddai hyn yn eu halinio â'r darpariaethau sy'n berthnasol i Weithfeydd Hylosgi Canolig a ddefnyddir at ddibenion gwaith ymchwil, datblygu a phrofi. | ● | ● | | AR Y TRYWYDD | Mae hyn wrthi'n cael ei ystyried fel rhan o raglen waith fwy y cyfeirir ati uchod sy'n ymwneud â gweithgareddau llosgi. Y bwriad yw ymgynghori arni yn 2024. |
| **Technegau Gorau Sydd Ar Gael** | | | | | |
| Byddwn yn cyflwyno proses ddomestig newydd ar gyfer datblygu a mabwysiadu Casgliadau BAT. Bydd hyn yn sicrhau bod dulliau rheoli llygredd sy'n cael eu defnyddio gan y byd diwydiant yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu defnyddio i leihau allyriadau i'r aer, yn parhau i ddatblygu a gwella yn unol â thystiolaeth orau o'r UE a lleoedd eraill. | ● | ● | | AR Y TRYWYDD | Mae Llywodraethau Cymru, y DU a'r Alban ac Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon wedi ymgynghori ar y cyd ar y cynigion ar gyfer 'A future regime within the UK' yn 2021. Cyhoeddwyd crynodeb cyfun o'r ymatebion ym mis Ionawr 2022. Cadarnhaodd hyn y ddau gam cyntaf (pedwar sector diwydiannol yng Ngham 1 a phump yng Ngham 2) fydd yn cael eu hadolygu a'u diweddaru o dan y trefniadau newydd. Mae tri o'r pedwar sector yng 'Ngham 1' (yn ymwneud â ffurfio a galfaneiddio metelau fferus, a thecstilau) wedi'u cwblhau trwy waith technegol a bydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yng Ngwanwyn/Haf 2024 ar ôl cynnal yr adolygiad o Drin Nwy Gwastraff yn y sector cemegau. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llygredd ym Mhort Talbot a Chwm Tawe** | | | | | |
| Byddwn yn cwblhau adolygiad o'n Cynllun Gweithredu Tymor Byr (STAP) ar gyfer Port Talbot yn 2021 er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn effeithiol ac yn addas i'r diben wrth geisio lleihau achosion o lygredd aer tymor byr (PM10) yn yr ardal. | | ● | | WEDI'I OHIRIO | Byddwn yn parhau i weithio'n glos â phartneriaid i sicrhau yr ymchwilir i episodau tymor byr o lygredd aer yn yr ardal, a bod mesurau lliniaru'n cael eu rhoi yn eu lle. Oherwydd cyhoeddiad TATA Steel i gau ffwrneisi chwyth yn 2024, aiff yr adolygiad o'r Cynllun Gweithredu Tymor Byr yn ei flaen pan fydd cynlluniau'r dyfodol yn hysbys. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Effeithlonrwydd Adnoddau** | | | | | |
| Rydym yn benderfynol o gyflymu'r newid o ddefnyddio cerbydau gwastraff ac ailgylchu diesel i gerbydau allyriadau isel iawn. Rydym yn nodi cyfraniad posibl y newid hwn at ansawdd aer ynghyd â'r ffaith bod Llywodraeth Cymru a llawer o Awdurdodau Lleol wedi datgan Argyfwng Hinsawdd ac wedi ymrwymo i fod yn ddefnyddwyr di-garbon net o fewn deng mlynedd (2030). | ● | ● | ● | AR Y TRYWYDD | Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi tua £10m o grantiau i sicrhau bod 53 o'r tua mil o gerbydau gwastraff trwm Awdurdodau Lleol yn gerbydau allyriadau isel iawn.<br><br>Mae dros hanner yr awdurdodau lleol (13 o'r 22) wedi dechrau troi eu cerbydau diesel yn rhai allyriadau isel iawn.<br><br>I helpu i gynyddu'r gefnogaeth i drydaneiddio cerbydau gwastraff yng Nghymru, bydd gofyn i unrhyw awdurdod lleol sy'n cael grant gan Lywodraeth Cymru roi benthyg y cerbyd i o leiaf 2 awdurdod lleol arall am 30 niwrnod yr un yn ystod y 18 mis cyntaf. Hefyd, er mwyn profi'r manteision llawn, un o'r amodau yw bod yn rhaid i'r cerbyd gymryd lle cerbyd diesel cyfatebol. Bydd hynny'n sicrhau manteision clir o ran carbon ac ansawdd aer. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| Rydym yn gweithio ar gynnig i sicrhau bod ceir newydd a cherbydau nwyddau ysgafn newydd o bob math sy'n rhan o fflyd y Sector Cyhoeddus yn gerbydau allyriadau isel iawn erbyn 2025, a lle y bo'n bosibl yn ymarferol, bod cerbydau nwyddau trwm o bob math yn gerbydau isel iawn erbyn 2030. | ● | ● | ● | AR Y TRYWYDD | Mae gan sector cyhoeddus Cymru uchelgais i fod yn net-sero erbyn 2030 a sicrhau mai carbon isel yw'r dewis cyntaf yn ei holl waith. Rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid y sector cyhoeddus a chyhoeddi Trywydd ar gyfer yr uchelgais, ynghyd â Chanllaw adrodd ar allyriadau i sicrhau bod pob sefydliad yn adrodd yn yr un ffordd gan ddefnyddio'r un fformat. Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru wedi darparu arian, cadwyn gyflenwi a chymorth technegol a strategol. |

**Lle**
Creu lleoedd cynaliadwy drwy wella prosesau cynllunio, seilwaith a thrafnidiaeth

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Polisi cynllunio sy'n helpu i wella ansawdd aer, sŵn a'r seinwedd** | | | | | |
| Byddwn yn darparu rhagor o ganllawiau cynllunio ar ansawdd aer, sŵn a seinwedd ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr yng Nghymru yn ystod y tymor hwn o'r Senedd. | ● | | | AR Y TRYWYDD | Cafodd yr Ymgynghoriad ar Nodyn Cyngor Technegol 11: Ansawdd Aer, Sŵn a Seinwedd ei gynnal rhwng 21 Hydref 2022 a 20 Ionawr 2023. Rydym wrthi'n ystyried yr ymatebion a disgwylir cyhoeddi'r ddogfen derfynol cyn diwedd 2024.<br>Mae testun yn y Nodyn Cyngor Technegol drafft (e.e. yr Atodiad ar rôl seilwaith gwyrdd ar gyfer rheoli ansawdd aer a seinweddau) wedi'i ymgorffori yng Nghynllun Sŵn a Seinwedd 2023-2028. Y mae felly yn bolisi, a rhaid i awdurdodau cynllunio ei ystyried wrth wneud eu gwaith. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru** | | | | | |
| Byddwn yn diwygio cylch gwaith NICW i sicrhau bod y Comisiwn yn chwilio am gyfleoedd i ddiogelu a gwella ansawdd yr aer. | | ● | | AR Y TRYWYDD | Mae'r llythyr cylch gwaith a anfonwyd ar 7 Ebrill 2022 yn gofyn am ffocws i wneud ein dinasoedd, trefi a phentrefi'n llefydd hyd yn oed gwell i fyw a gweithio ynddyn nhw.<br>Mae'r Comisiwn wedi ystyried adroddiad yr Adolygiad Ffyrdd ac wedi cynnig ei sylwadau arno. Cyhoeddodd erthygl ar 'Geir a Ffyrdd yng Nghymru' ar ei wefan ym Mehefin 2023. Barn y Comisiwn oedd y dylai prosiectau, yn ogystal ag ystyried teithio llesol, ystyried iechyd a lles, llygredd sŵn ac aer, manteision i natur, lliniaru ac atal llifogydd ar lefel dalgylchoedd cyfan a dylunio da. Nododd y Comisiwn hefyd bod llygredd aer o ddefnyddio ceir preifat yn epidemig iechyd. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Allyriadau o Drafnidiaeth** | | | | | |
| **Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** | | | | | |
| Byddwn yn datblygu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd yn 2020-21, a fydd yn cyflwyno ein fframwaith polisi ar gyfer cyrraedd ein targedau datgarboneiddio a sicrhau'r gostyngiadau gofynnol mewn llygredd aer. | ● | ● | | WEDI'I GWBLHAU | Gwnaethon ni gyhoeddi Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth i Gymru yn 2021. |
| **Hyrwyddo'r newid o gerbydau modur preifat i deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus** | | | | | |
| Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i wella darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus. | ● | ● | ● | AR Y TRYWYDD | Mae ein Cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer trafnidiaeth yn esbonio sut y byddwn yn cyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Bydd hynny'n cynnwys cyflawni'n cynllun uchelgeisiol dros y 5 mlynedd nesaf ar gyfer newid moddol a gwella trafnidiaeth gyhoeddus. Mae trenau trydan newydd wedi dechrau ar linell Craidd y Cymoedd yn 2024 ac rydym dal wrthi'n cynyddu capasiti  rhai gwasanaethau rhwng y de a'r gogledd wrth i fwy o drenau newydd ymuno â'r gwasanaeth. Ym mis Mawrth 2024, ar y cyd â Thrafnidiaeth Cymru, cyhoeddon ni gynllun yn esbonio'r hyn y bydd gofyn ei wneud i greu rhwydwaith bws newydd i Gymru. Bydd yn cynnwys newid ein fflyd bysiau i fysiau diallyriadau. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn cyhoeddi Canllawiau Darparu a Dylunio wedi'u diweddaru, gan nodi dulliau a gofynion cynllunio ac ymgynghori a'r manylebau dylunio ar gyfer y seilwaith cerdded a beicio erbyn Hydref 2020. | ● | | | WEDI'I GWBLHAU | Cafodd Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol eu cyhoeddi yn 2021. |
| Byddwn yn darparu adnoddau a hyfforddiant i helpu Awdurdodau Lleol i gynllunio a dylunio seilwaith teithio llesol yn effeithiol, yn ogystal ag ymgysylltu â'r gymuned erbyn diwedd 2020. | ● | | | WEDI'I GWBLHAU | Cafodd ap Mapio Teithio Llesol ei ddatblygu ar gyfer MapDataCymru ac mae Mapiau Rhwydweithiau Teithio Llesol awdurdodau lleol wedi'u datblygu ac ar gael ar y system. Defnyddiwyd y platfform CommonPlace i drafod ac ymgynghori ar deithio llesol yn ystod y pandemig. |
| Fel rhan o'r gwaith i gyflwyno cyfyngiadau cyflymder diofyn 20mya mewn ardaloedd adeiledig, byddwn yn datblygu fframwaith monitro a gwerthuso i olrhain ac asesu effeithiau, gan gynnwys ar lygredd aer. | ● | ● | | AR Y TRYWYDD | Gwnaethon ni gyhoeddi adroddiad interim yn 2023 ac adroddiad Cam 1 yn Chwefror 2024 oedd yn cynnwys data monitro ar gyfer ardaloedd cam 1 hyd at ddiwedd Mai 2023. Cafodd adroddiad Cam 1 arall (Jacobs) ei gyhoeddi ym Mai 2024. Mae'n cynnwys data a manylion hyd at Ebrill 2024. |
| Cafodd ein Rhaglen Teithio Llesol, sy'n hyrwyddo cerdded a beicio i'r ysgol, ei diweddaru yn 2020 a bydd yn para tan 2023. Bydd y rhaglen yn cydweithio'n agos â thros 400 o ysgolion dros y tair blynedd nesaf gan ddarparu adnoddau a chymorth cwricwlwm ar gyfer holl ysgolion Cymru. | ● | ● | | AR Y TRYWYDD | Mae'r cynllun wedi'i gaffael am y tair blynedd nesaf o 2-24-25, cyn belled â bod arian ar gael. Mae posibilrwydd y gellid ei estyn am flwyddyn arall. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| Rydym yn ariannu hyfforddiant beicio ar gyfer plant ac oedolion a hyfforddiant i gerddwyr ifanc. Yn 2021, byddwn yn adolygu sut y gellir datblygu'r hyfforddiant hwn i fynd y tu hwnt i gaffael sgiliau a chynnwys elfennau newid ymddygiad. | ● | ● | | WEDI'I OHIRIO | Rydym yn dal i ariannu hyfforddiant i feicwyr a cherddwyr ac yn annog awdurdodau lleol i gynnig mwy o hyfforddiant i oedolion a theuluoedd yn ogystal â hyfforddiant beicio cynhwysol. Mae'n dal i gryfhau'r berthynas rhwng meithrin sgiliau diogelwch ar y ffyrdd a newid arferion teithio. Yn 2023-24, gwnaethon ni neilltuo dros £100,000 ychwanegol i ehangu cwmpas hyfforddiant beicio i lenwi bylchau sgiliau. Cynhelir rhaglenni newid ymddygiad, fel Teithiau Llesol, Rhaglen Cerdded i'r Ysgol Strydoedd Byw a Momentwm yng Nghasnewydd i ategu hyn. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Trafnidiaeth Gyhoeddus** | | | | | |
| **Bysiau a thacsis** | | | | | |
| Rydym yn datblygu dogfen weledigaeth, cynllun cyflenwi a strwythurau llywodraethu i ddatblygu'r gwaith o ddiwygio darpariaeth Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat. Bydd hyn yn cynnwys y themâu allweddol o sut rydym yn sicrhau gwelliannau mewn ansawdd aer yn ogystal â datgarboneiddio'r fflyd er mwyn cyflawni ein nod uchelgeisiol ar gyfer fflyd tacsis allyriadau sero erbyn 2028. | ● | ● | | AR Y TRYWYDD | Cyhoeddon ni Bapur Gwyn ym mis Mawrth 2023 ar ddiwygio'r drefn drwyddedu trwy'r Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru). Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ym Medi 2023. Amcan ein cynigion fydd gwneud tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru'n fwy diogel, tecach a gwyrddach. Yn greiddiol i hyn fydd Safonau Cenedlaethol i sicrhau cysondeb ledled Cymru. Ar 2 Hydref 2023, gwnaeth y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar y pryd, Lee Waters AS ddatganiad llafar lle ymrwymodd i barhau i drafod â'r sector a theithwyr wrth ddatblygu deddfwriaeth. Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd na ellid disgwyl i Gymru symud yn gynt ar y mater na gweddillyt DU wrth newid i gerbydau heb allyriadau. Dywedodd hynny yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU i ohirio rhoi'r gorau i werthu cerbydau petrol/diesel tan 2035. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rheilffyrdd** | | | | | |
| Byddwn yn cynyddu capasiti drwy ddarparu systemau Metro newydd ac arloesol. Bydd Metro De Cymru yn sicrhau newid sylweddol o safbwynt integreiddio a darparu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn cynnig dewis amgen hynod gryf i deithio mewn ceir erbyn 2023. | ● | ● | ● | WEDI'I OHIRIO | Bu ychydig o oedi wrth weddnewid Llinellau Craidd y Cymoedd. Disgwylir cwblhau'r rhan fwyaf o'r gwaith bellach yn 2024. Mae Llinellau Craidd y Cymoedd yn dal i gael eu gweddnewid, gyda threnau trydan newydd sbon yn cael eu darparu yn haf 2024, ynghyd â mwy o wasanaethau a mwy o gapasiti o fis Mehefin 2024. |
| **Cerbydau allyriadau isel iawn** | | | | | |
| Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, Awdurdodau Lleol, y sector ynni a busnesau i gynllunio ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydan a'i roi ar waith. Drwy fuddsoddi £2 filiwn erbyn 2020, byddwn yn helpu i greu rhwydwaith o fannau gwefru cyflym er mwyn sicrhau bod cerbydau trydan yn gallu teithio'n bellach ledled Cymru. Byddwn yn ymgynghori ar Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan er mwyn llywio buddsoddiad ehangach yn ystod hydref 2020. | ● | ● | ● | WEDI'I GWBLHAU | Gwnaethon ni gyhoeddi'r Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan a'i chynllun gweithredu yn 2021. Rydym yn buddsoddi yn y seilwaith gwefru cerbydau trydan i wireddu'r ymrwymiadau yn y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| Rydym yn gweithio ar gynnig i sicrhau bod pob car newydd a phob cerbyd nwyddau ysgafn newydd sy'n rhan o fflyd y Sector Cyhoeddus yn gerbydau isel iawn o ran allyriadau erbyn 2025. Hefyd, lle y bo'n ymarferol bosibl, bydd pob cerbyd nwyddau trwm yn gerbydau allyriadau isel iawn erbyn 2030. | ● | ● | ● | AR Y TRYWYDD | Fel rhan o'r amcan i Sector Cyhoeddus Cymru fod yn sero net erbyn 2030, mae rhanddeiliaid yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn unol â'r Map Ffordd a gyhoeddwyd ac mae dros 70 o gyrff yn cofnodi eu hallyriadau blynyddol yn wirfoddol er mwyn i ni allu monitro'u cynnydd. Mae'r amcan ar gyfer y sector cyhoeddus yn cynnwys y gofyn y bydd pob car a cherbyd nwyddau ysgafn yn isel ei allyriadau erbyn 2025 a phob cerbyd nwyddau trwm erbyn 2030 lle bo hynny'n bosibl. Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r amcan hwn trwy grant Gwasanaethau Ynni i brynu cerbydau a darparu pwyntiau gwefru. |
| Byddwn yn archwilio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cryfhau mesurau i atal gyrwyr sy'n gadael injan yn troi'n ddiangen ac yn cyflwyno ein cynigion yn ystod 2020 yn ein Papur Gwyn ar Ddeddf Aer Glân. | ● | ● | | WEDI'I GWBLHAU | Yn dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyn ar Fil Aer Glân (Cymru) cyflwynwyd Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 yn y Senedd ym mis Mawrth 2023 gyda chynigion ar daclo cerbydau'n segura'n llonydd. Derbyniodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol ar 14 Chwefror 2024. Byddwn yn ymgynghori yn 2024 ar reoliadau ar yr ystod gosbau am y drosedd o adael i gerbyd segura'n llonydd, gan obeithio y bydd y cosbau uwch yn atal pobl rhag gwneud hynny. Rydym wedi bod yn datblygu ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad a byddwn yn helpu awdurdodau lleol trwy gyhoeddi canllaw ar sut i roi strategaethau ar waith i atal segura'n lonydd. Ein bwriad yw ymgynghori ar ein cynigion yn 2024. |

| Camau Gweithredu | Tymor byr (hyd at 2021) | Tymor canolig (2021 i 2026) | Tymor hir (2026 i 2031) | Y cynnydd diweddaraf | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mynd i'r afael â chrynodiadau o nitrogen deuocsid ar ymylon ffyrdd yng Nghymru** | | | | | |
| Byddwn yn cyhoeddi Cynllun $NO_2$ wedi'i ddiweddaru (Cynllun atodol Llywodraeth Cymru i gynllun y DU ar gyfer mynd i'r afael â chrynodiadau o nitrogen deuocsid wrth ymyl y ffordd 2017) erbyn Tachwedd 2020. | ● | ● | | WEDI'I OHIRIO | Gwnaethon ni ohirio'r gwaith o ddiweddaru'r Cynllun $NO_2$ er mwyn cynnal rhagor o waith asesu ar y rhannau hynny o'r rhwydwaith cefnffyrdd oedd dros y terfyn. Mae Adroddiadau Cam 2 WelTAG bellach wedi'u llunio ar ddwy ardal ychwanegol lle mae'r lefelau'n uwch na'r terfyn ac mae asesiad o Gam 3 wedi dechrau. Disgwylir eu cyhoeddi yn Hydref 2024 fel rhan o' ymgynghoriad ar fesurau lliniaru mewn mannau newydd lle eir dros y terfyn. |
| Byddwn yn cyhoeddi data blynyddol, bob mis Mawrth, ar lefelau crynodiadau allyriadau yn y mannau sydd â chrynodiadau gormodol ar y Rhwydwaith Ffyrdd a Reolir gan Lywodraeth Cymru. | ● | ● | ● | WEDI'I OHIRIO | Ni chafodd y ffigurau blynyddol ar gyfer 2022 eu cyhoeddi gan mai'r bwriad oedd eu cynnwys mewn ymgynghoriad ar ddiweddaru'r Cynllun Ansawdd Aer. Ond gohiriwyd cyhoeddi'r diweddariad. Penderfynwyd yn lle hynny gyhoeddi adroddiad yn nodi data ansawdd aer 2022 a 2023 mewn un ddogfen. Disgwylir ei chyhoeddi yng Ngorffennaf 2024. |

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50449, ISBN digidol 978-1-83625-597-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg